# Creu sbwriel a thipio anghyfreithlon

## Ar raddfa fechan

Unigolion yn taflu sbwriel o ffenestri ceir, gollwng sbwriel ar ôl barbeciw a phicnic.

## Ar raddfa fawr

- Bwytai, archfarchnadoedd, siopau a bwyd cyflym
- Gwastraff busnes a diwydiannol e.e. brics
- Mae rhai cwmnïau'n codi tâl am waredu gwastraff cyn ei waredu'n anghyfreithlon (tipio anghyfreithlon)

## Anuniongyrchol

- Yn cael ei chwythu o finiau gan y gwynt
- Yn cael ei dynnu o finiau a'i ledu gan fywyd gwyllt e.e. gwylanod














# Canlyniadau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon

## Amgylcheddol

- Peryglus i fywyd gwyllt
- Gallu achosi difrod i'r amgylchedd e.e. bonion sigaréts yn achosi tanau glaswellt
- Gall sbwriel gael ei chwythu i afonydd a'i gario i'r môr

## Economaidd

- Costau glanhau a gwaredu sbwriel a thipio anghyfreithlon
- Effeithiau ar fusnesau lleol os bydd pobl yn dechrau osgoi'r ardal
- Effaith ar dwristiaeth a'r potensial am dwf mewn ardal
- Gallu lleihau prisiau eiddo

## Cymdeithasol

- Gallu cynyddu problemau iechyd
- Effeithiau ar ymdeimlad cymuned o les
- Gallu annog troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol







# Cyfyngu ar sbwriel a thipio anghyfreithlon

## Cyfreithiol

- Mae Taclo Tipio Cymru yn mynd i'r afael â thipio gwastraff anghyfreithlon. Gall tipwyr anghyfreithlon gael hyd at £50,000 o ddirwy a hyd yn oed dedfryd o garchar.
- Gall awdurdodau lleol a'r heddlu roi hyd at £150 o Hysbysiadau Cosb Benodedig am daflu sbwriel

## Addysg / Ymwybyddiaeth


- Rhaglenni wedi'u hariannu fel Eco-ysgolion
- Bwriad mentrau fel Trefi Taclus yw grymuso pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hamgylchedd lleol
- Gwybod ble a sut y gallwch ailddefnyddio ac ailgylchu e.e. Freecycle, uwch-gylchu, elusennau a sefydliadau sy'n casglu eitemau nad oes eu heisiau

## Arbed – Ailddefnyddio– Ailgylchu

- Darpariaethau lleol e.e. biniau mewn mannau addas, canolfannau ailgylchu, casgliadau o gartrefi
- Mae gan sbwriel werth pan gaiff ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu a gellir ei droi'n gynhyrchion newydd a deunydd pacio
- Mae ailgylchu'n lleihau'r effaith ar adnoddau naturiol am fod llai o ddeunyddiau crai'n ofynnol





# Cardiau Herio

**A allwch feddwl am unrhyw bethau eraill sy'n creu sbwriel neu dipio anghyfreithlon?**

**Her:** Eich her yn awr yw bod yn greadigol a defnyddio deunyddiau naturiol i wneud model sy'n dangos rhai pethau sy'n creu sbwriel a/ neu dipio anghyfreithlon. Defnyddiwch yr awgrymiadau ar y cardiau a gasglwyd gennych eisoes ac ychwanegwch unrhyw syniadau y gallwch feddwl amdanynt.

**A allwch feddwl am unrhyw bethau eraill sy'n creu sbwriel neu dipio anghyfreithlon?**

**Her:** Eich her yn awr yw bod yn greadigol a defnyddio deunyddiau naturiol i wneud model sy'n dangos rhai o ganlyniadau sbwriel a/ neu dipio anghyfreithlon. Defnyddiwch yr awgrymiadau ar y cardiau a gasglwyd gennych eisoes ac ychwanegwch unrhyw syniadau y gallwch feddwl amdanynt.

**A allwch feddwl am unrhyw bethau eraill sy'n creu sbwriel neu dipio anghyfreithlon?**

**Her:** Eich her yn awr yw bod yn greadigol a defnyddio deunyddiau naturiol i wneud model sy'n dangos rhai ffyrdd o gyfyngu ar sbwriel a/ neu dipio anghyfreithlon. Defnyddiwch yr awgrymiadau ar y cardiau a gasglwyd gennych eisoes ac ychwanegwch unrhyw syniadau y gallwch feddwl amdanynt.

# Cardiau Teitl

Creu

Canlyniadau

Cyfyngu